# Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

**2015 dccc 4**

## RHAN 8

MEYSYDD TREF A PHENTREF

### 53 Eithrio o’r hawl i wneud cais am gofrestru

(1) Mae Deddf Tiroedd Comin 2006 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 15C (cofrestru meysydd: eithriadau)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) hepgorer “in England”;

(ii) yn lle “Schedule 1A” rhodder “the relevant Schedule”;

(b) yn is-adran (2), ar ôl “the Table” mewnosoder “set out in the relevant Schedule”;

(c) yn is-adrannau (3) a (4), yn lle “Secretary of State” rhodder “appropriate national authority”;

(d) yn is-adran (5)—

(i) yn lle “Secretary of State” rhodder “appropriate national authority”;

(ii) yn lle “Schedule 1A” rhodder “the relevant Schedule”;

(e) ar ôl is-adran (8) mewnosoder—

“(9) In this section “the relevant Schedule” means—

(a) Schedule 1A, in relation to land in England;

(b) Schedule 1B, in relation to land in Wales.”

(3) Ar ôl Atodlen 1A (y mae ei henw yn newid i “Exclusion of right under section 15: England”) mewnosoder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 6.